



## Rhestr Wirio Hunanasesu Cyn Ymgeisio

I fod yn gymwys ar gyfer grant CDC, bydd angen ichi allu ateb yn gadarnhaol (✓) i'r holl gwestiynau isod. Os ydych chi'n ansicr neu angen ateb yn negyddol (✗) i unrhyw un ohonyn nhw, **cofiwch siarad â ni – byddai'n llawer gwell gennym petaech yn cysylltu â ni nac yn rhoi'r gorau i'r cais – rydyn ni yma i helpu!**

	AR GYFER POB YMGEISYDD	✓ / ✗
A	<p><b>Rydyn ni wedi ein lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu ychydig y tu allan i'w ffiniau.</b></p> <p><i>Gweler map o'r Parc Cenedlaethol isod</i></p>	
B	<p><b>Rydyn ni'n croesawu unrhyw un sydd am ymuno â'n sefydliad, cymryd rhan yn ein gweithgareddau, neu ddefnyddio ein gwasanaethau.</b></p> <p><b>Ar gyfer grwpiau cymunedol: gwneir hyn yn glir yn ein cyfansoddiad a'n polisiau cyfle cyfartal a'r ffordd yr ydym yn gweithio.</b></p> <p><i>Dylai fod croeso i unrhyw un sydd am gymryd rhan yn eich sefydliad, grŵp neu weithgaredd, neu ddefnyddio'ch gwasanaethau, wneud hynny, oni bai bod rhesymau clir pam nad yw hyn yn bosibl (e.e. mae'r gweithgaredd ar gyfer menywod, pobl ifanc neu bobl hŷn yn unig). Os oes unrhyw gyfyngiadau o gwbl, dylech esbonio pam.</i></p>	
C	<p><b>Rydyn ni'n cadw cofnodion ariannol ac yn cynhyrchu cyfrifon blynyddol (yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol os yn briodol).</b></p>	
D	<p><b>Mae gennym gyfrif gyda Banc, Cymdeithas Adeiladu, Swyddfa'r Post, neu Undeb Credyd yn enw ein sefydliad neu fusnes.</b></p> <p><b>Ar gyfer grwpiau cymunedol: Mae gennym o leiaf ddau lofnodwr, heb berthynas rhyngddynt, i awdurdodi gwariant.</b></p>	
E	<p><b>Ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion bregus:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Mae gennym Bolisi a Gweithdrefn Diogelu cyfredol, ac o leiaf un Swyddog Diogelu penodol.</li><li>- Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc neu oedolion bregus, yn destun gwiriadau gan y</li></ul>	

	Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd sy'n briodol i natur ein gwaith.	
F	<b>Mae gennym yswiriant cyfredol ar gyfer yr holl weithgareddau yr ydym yn ymgymryd â nhw.</b>	
G	<b>Nid yw ein gweithgareddau/darpariaeth gwasanaeth yn ymwneud yn unig â phlaid wleidyddol neu grefydd.</b>	
<b>AR GYFER GRWPIAU CYMUNEDOL:</b>		
H	<b>Mae gennym gyfansoddiad ffurfiol/dogfen lywodraethol (yn gyfredol ac wedi'i llofnodi) a Phwyllgor neu Fwrdd Rheoli gydag o leiaf 3 aelod.</b>  <i>Os oes aelodau sy'n perthyn i'w gilydd ar y Pwyllgor, rhaid cael o leiaf un aelod annibynnol bob amser.</i>	
I	<b>Mae'r prosiect arfaethedig yn unol â'r nodau/amcanion a nodir yn ein cyfansoddiad/dogfen lywodraethol.</b>	
J	<b>Mae ein cyfansoddiad/dogfen lywodraethol yn cynnwys cymal diddymu sy'n nodi, os bydd ein sefydliad yn cau, y bydd unrhyw asedau'n cael eu dosbarthu i sefydliadau ag amcanion tebyg.</b>	
K	<b>Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cwrdd o leiaf bob chwarter ac yn cadw cofnodion o'r cyfarfodydd.</b>	
L	<b>Mae gennym o leiaf ddau lofnodwr heb berthynas rhyngddynt ar ein Pwyllgor Rheoli i awdurdodi gwariant.</b>	

